Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Dulas
# Corris
# Machynlleth
# Powys
# SY20 9TQ

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Dulas

Mae Ysgol Dyffryn Dulas wedi ei lleoli ym mhentref Corris, ger Machynlleth yng Ngwynedd. Mae'r ysgol hon yn rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Pennal ers 2012.

Mae 53 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys pedwar o blant oed meithrin sy'n dechrau'r ysgol yn rhan amser yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Tros dreigl amser, mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan tua 18% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae tua 2% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae pob disgybl yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.

Arolgywyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2013 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol a'r ffederasiwn yn feistrolgar a llwyddiannus iawn gan feithrin tîm hynod ymroddgar a chydwybodol.  Gwireddir gweledigaeth glir ar ddatblygu disgyblion llawen a llwyddiannus mewn amgylchedd ddiogel lle y gall disgyblion flodeuo a datblygu.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o ran safonau a lles disgyblion ac mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion feithrin medrau sy'n eu galluogi i oresgyn heriau yn eu dysgu a deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau. Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus yn sicrhau bod gan disgyblion o bob oed agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos gwydnwch ymhell uwchlaw'r disgwyliadau wrth weithio'n annibynnol.  Nodwedd eithriadol o dda o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch y mae bron bob un disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Un o gryfderau'r addysgu yw'r ffordd y mae athrawon yn asesu dealltwriaeth disgyblion yn eithriadol o effeithiol yn ystod gweithgareddau, gan gynnig adborth amserol iddynt sy'n eu galluogi i gynhyrchu gwaith o safon uchel.  Cryfder amlwg arall yw'r modd mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu creadigrwydd y disgyblion gan sicrhau dilyniant a pharhad yn eu medrau ar draws yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol

A2 Lledaenu'r arfer ragorol o fewn yr addysgu ar draws y ffederasiwn

A3 Cryfhau rôl y disgyblion wrth fynegi barn yn uniongyrchol ar weithdrefnau ehangach yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith mewn perthynas â 'sut mae'r ysgol wedi datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen' a 'sut mae'r ysgol wedi datblygu agweddau y disgyblion at ddysgu', i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r iaith Gymraeg yn gynnar ar ôl dechrau'r ysgol. Maent yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion ac oedolion yn ystod gweithgareddau dosbarth ac wrth weithio'n annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus, er enghraifft wrth drafod beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu gweithgareddau. Maent yn adeiladu ar eu medrau yn gynyddol ar draws cyfnod allweddol 2, ac erbyn eu bod yn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn aeddfed yn y ddwy iaith. Yn Saesneg, er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa goeth wrth drafod teimladau Owain Glyndŵr am frwydr Bryn Glas. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson yn ystod cyfnodau mwy anffurfiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn effeithiol. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio'u hymwybyddiaeth ffonolegol yn llwyddiannus i ddarllen testunau yn annibynnol yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau ar gyfer creu siapiau yn yr ardal does a'r ardal adeiladu. Mae gan bron pob un ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion llyfrau fel awdur a theitl ac maent yn mynegi barn yn syml ar y llyfrau gan roi rhesymau dilys dros eu safbwyntiau. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn trafod yn aeddfed eu hoff awduron a sut maent yn ffafrio gwahanol arddulliau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau darllen uwch yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio geiriaduron a thesawrysau i gyfoethogi'u gwaith ysgrifenedig.

Yn y dosbarth meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar pwrpasol, er enghraifft wrth greu marciau yn y tywod a chyda sialc ar y llawr. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn atalnodi eu gwaith ac yn sillafu geiriau yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth ysgrifennu stori am yr Hugan Fach Felen. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n greadigol ar draws ystod eang o ffurfiau yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio'u dychymyg yn huawdl wrth ysgrifennu'n estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson o bêl rygbi. Mae cyflwyniad a llawysgrifen rhan fwyaf y disgyblion o safon dda iawn a dangosant barch amlwg tuag at eu gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau rhifedd. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhif yn fedrus i gyfrifo faint o gnau castan y maent wedi eu casglu yn yr ardal allanol. Maent yn cyfri'r rhain yn gywir ac yn penderfynu eu dosbarthu fesul 10 er mwyn eu cyfrif yn haws. Maent yn trin arian yn gywir wrth werthu cardiau yn y siop chwarae rôl, gan adio prisiau a rhoi newid o £1 yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o strategaethau rhif ac maent yn dewis y dull

mwyaf priodol i ddatrys problemau geiriol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn dda wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio mesuriadau ac onglau i gynllunio perisgop i edrych dros y ffosydd.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd arbennig o dda yn eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn ystyried lliw, llinell a thôn yn ofalus wrth ddynwared gwaith gan artist enwog o Gymru yn y cyfnod sylfaen, tra bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ystyried gwead ac effaith gwahanol offerynnau i greu naws wrth gyfansoddi darn o gerddoriaeth yn seiliedig ar y thema 'Arwyr'.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn un o gryfderau'r ysgol ac maent yn eu cymhwyso'n effeithiol a phwrpasol ar draws y meysydd dysgu. O oed ifanc, mae disgyblion yn defnyddio gwahanol apiau a meddalwedd yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn creu lluniau yn ddychmygus i gyd-fynd â'r thema a graff pictogram ar nifer y dannedd mae disgyblion wedi eu colli yn seiliedig ar ddata go iawn. Ar draws yr ysgol, mae defnydd y rhan fwyaf o TGCh i ddatblygu eu medrau creadigol yn gryfder amlwg wrth i ddisgyblion o'r meithrin i Flwyddyn 6 gynhyrchu fideos ac animeiddiadau i gefnogi a chyfoethogi gwaith y dosbarth. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith animeiddio disgyblion y cyfnod sylfaen o anifeiliaid yr Arctig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol. Maent yn chwilio am wybodaeth berthnasol oddi ar y we'n ddiogel ac yn defnyddio'r wybodaeth i greu cyflwyniad amlgyfrwng ar organau'r corff. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau'n fwriadus wrth greu gêm i adlewyrchu un o frwydrau Owain Glyndŵr i gyd-fynd â'r thema. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i greu a holi cronfeydd data a thaenlenni yn anghyson.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Nodwedd eithriadol o dda o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch y mae bron pob un disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gwersi, amser cinio ac amser egwyl. Maent yn ofalgar iawn tuag at ei gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth symud tegan rhaglenadwy i ddarganfod siapiau tri dimensiwn yn y cyfnod sylfaen.

Mae rhyngberthynas waith ardderchog yn bodoli rhwng y disgyblion ac maent yn barchus iawn tuag at y staff. Mae hyn yn nodwedd eithriadol o'r ysgol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol iawn at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn canolbwyntio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig ac yn hyderus ynglŷn â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith a symud ymlaen at y cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn deall ac yn datblygu strategaethau effeithiol iawn i'w helpu i ddyfalbarhau a goresgyn anawsterau. Maent yn derbyn ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau ac yn gwneud defnydd hyfedr o'u 'pwerau dysgu' i ddatrys unrhyw broblemau. Er enghraifft, maent yn gofyn i ffrind, meddwl yn ofalus ac yn defnyddio adnoddau fel llyfrau neu eiriaduron cyn gofyn i athrawon am gymorth. Dangosant wydnwch arbennig wrth ymwneud â thasgau a heriau yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol ac effeithiol fel unigolion, mewn grwpiau bychain a chyda phartneriaid. Maent yn

gwneud dewisiadau annibynnol, yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol iawn ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac uchelgeisiol sy'n cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.  Er enghraifft, wrth newid methodoleg yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion wedi creu rheolau pendant ynglŷn â dewis heriau yn y dosbarth.  Ar draws yr ysgol, mae agweddau disgyblion at eu dysgu a'u gallu i ddefnyddio medrau dysgu annibynnol yn nodweddion rhagorol.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn mynegi barn yn glir am yr hyn y maent am ei ddysgu trwy gyfrannu at weithgareddau yn ystod themâu'r tymor.  O ganlyniad, maent yn ymroi'n llwyr i'r tasgau ac mae ganddynt berchnogaeth dros eu dysgu.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n hapus a chartrefol yn yr ysgol.  Maent yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn siarad yn aruchel am eu profiadau.  Maent yn teimlo'n ddiogel yno ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni.  Maent yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein ac yn esbonio'n fanwl beth i'w wneud os ydynt yn bryderus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Maent yn trafod yn aeddfed bwysigrwydd diet cytbwys a'r angen i gael cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fwyd i fod yn iach.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o effaith gadarnhaol ymarfer corff ar eu hiechyd.  Enghraifft arbennig o dda o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn rhedeg yn rheolaidd ar y 'trac dal i fynd' ac yn defnyddio'u medrau rhifedd i gyfrifo sawl metr y maent wedi rhedeg.  Er mwyn amrywio'r gweithgaredd, maent yn dewis gwahanol offer a ffyrdd o amgylch y trac.  Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o degwch a chydraddoldeb.  Er enghraifft, maent yn trafod pwysigrwydd rhoi cyfleoedd cyfartal i'r bechgyn a'r merched gyfranogi mewn chwaraeon fel rygbi a phêl-droed fel ei gilydd.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd ddiwethaf yn uchel iawn ac yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg.

### Addysgu a phrofiadau dysgu:  Rhagorol

Mae'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn drylwyr.  Maent yn creu awyrgylch ddysgu fyrlymus a diogel iddynt ac yn rheoli eu hymddygiad yn feistrolgar i gwrdd ag anghenion penodol pob un.  Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion feithrin medrau sy'n eu galluogi i oresgyn heriau yn eu dysgu a deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau.  Trwy'r defnydd hyfedr o strategaethau fel 'pwerau dysgu', maent yn sicrhau bod gan y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu.  O ganlyniad, mae bron pob un yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos gwydnwch wrth weithio'n annibynnol.  Mae gan athrawon a chymorthyddion ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn teilwra gweithgareddau'n grefftus i fodloni anghenion dysgu bron pob un ohonynt.  Mae'r athrawon yn fodelau iaith da ac yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu geiriau a phatrymau iaith newydd i'r disgyblion, er enghraifft wrth annog y cynorthwyon i chwarae rôl gyda disgyblion yn gornel cartref yn y cyfnod sylfaen.  Un o gryfderau'r addysgu yw'r ffordd y mae athrawon yn asesu dealltwriaeth disgyblion yn eithriadol o effeithiol yn ystod gweithgareddau, yn cynnig adborth iddynt yn y man a'r lle ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddyfalbarhau â gweithgareddau i ddatrys heriau eu hunain.  Maent yn holi disgyblion yn soffistigedig er mwyn eu hannog i feddwl drostyn nhw eu hunain.

Mae'r athrawon yn cynllunio cwricwlwm ysgogol i'r disgyblion sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at eu gweithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt berchnogaeth naturiol dros eu cwricwlwm ac, o ganlyniad, yn mwynhau eu dysgu. Cyfoethogir y cwricwlwm yn fwriadus drwy drefnu bod amrywiaeth o ymwelwyr yn galw i siarad am wahanol weithgareddau ac ymweliadau i fannau diddorol fel y Ganolfan Dechnoleg Amgen i ddysgu am ddiogelu'r amgylchedd. Yn ogystal, mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru. Enghreifftiau o hyn yw'r gweithgareddau sy'n seiliedig ar gwpan rygbi'r byd ac astudio hanes Owain Glyndŵr fel rhan o'r thema 'Arwyr'.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu creadigrwydd y disgyblion. Maent yn sicrhau dilyniant a pharhad yn natblygiad eu medrau ar draws yr ysgol, er enghraifft yn eu gallu i arsylwi ar fanylder yng ngwaith celf eraill cyn defnyddio'r un technegau yn eu gwaith hwy. Mae hwn yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Cyfoethogir y gwaith hwn yn llwyddiannus gyda phrosiectau gydag artistiaid allanol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau fel cerddoriaeth a TGCh yn rymus.

Elfen arbennig o gryf o waith yr ysgol yw'r datblygiad yn egwyddorion y cyfnod sylfaen, sy'n cynnig profiadau dysgu byw i ddisgyblion. Mae athrawon yn cynllunio cydbwysedd da iawn rhwng gweithgareddau o dan arweiniad oedolion a chyfleoedd ardderchog i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau yn annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r defnydd meistrolgar o adnoddau naturiol a gweithgareddau ymarferol yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd risgiau cymedrol yn eu gwaith ac yn dysgu'n weithredol. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw'r cyfle i ddisgyblion ddefnyddio morthwyl a hoelion i greu patrwm ar gyfer gwneud addurn Nadolig. Gwneir defnydd eithriadol o effeithiol o'r ardal allanol fel estyniad naturiol o'r amgylchedd ddysgu tu mewn, a chynllunnir gweithgareddau perthnasol i'r awyr agored er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn fedrus.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ehangu'r defnydd o egwyddorion y cyfnod sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mae athrawon yn cynllunio'n grefftus i sicrhau bod cyfleoedd creadigol i ddisgyblion atgyfnerthu eu dysgu ar draws gwahanol ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio'r sgrin werdd i recordio cyfweliad gydag Owain Glyndŵr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion at eu dysgu a'u hannibyniaeth.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y meysydd dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn gwneud defnydd helaeth o'r ardal allanol i ddatblygu medrau disgyblion fel darllen cyfarwyddiadau a mesur cynhwysion i greu cacen yn y gegin fwd cyn ysgrifennu rysáit eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, ceir cyfleoedd cyfoethog a real i ddisgyblion atgyfnerthu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith, er enghraifft drwy ysgrifennu llythyr i geisio perswadio Undeb Rygbi'r Byd i ddod â'r gystadleuaeth i Gymru y tro nesaf yn Saesneg. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau ymglymiad llwyr y disgyblion yn eu dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn hafan hapus, ofalgar a chartrefol sy'n hyrwyddo agweddau ac ymddygiad da iawn ymysg y disgyblion. Mae blaenoriaeth uchel ar sicrhau bod y

disgyblion a staff yn ddiogel yn yr ysgol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n datblygu annibyniaeth a gwydnwch disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. O ganlyniad, mae disgyblion yn canolbwyntio'n eithriadol o dda am gyfnodau estynedig ac yn defnyddio strategaethau cytûn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i oresgyn unrhyw rwystrau yn eu dysgu. Mae gan yr ysgol drefniadau cynhaliol ar gyfer cefnogi disgyblion bregus. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau buddiol i leddfu gorbryder yn llwyddiannus.

Mae perthynas agos iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda hwy. Mae'r rhieni yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r ysgol fel partneriaid yn addysg eu plant. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol iawn. Enghraifft dda o hyn yw'r clwb garddio sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn fedrus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y trefniadau effeithiol sydd gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i olrhain a thracio cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol iawn i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar iawn a darparu arweiniad a chefnogaeth gwerthfawr iddynt. Mae'r holl staff yn cefnogi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu arbennig, yn fedrus iawn. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gefnogaeth briodol i symud ymlaen yn llwyddiannus at y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae cyfleoedd i gynnwys llais y disgybl ym mywyd yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach rannu syniadau ac i gyfrannu at y profiadau dysgu fel hanes lleol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymgymryd â rolau arweiniol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at drefnu gweithgareddau codi arian at elusennau ac i gael adnoddau i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl o ran mynegi barn am gyfeiriad strategol yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigon cadarn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Mae ganddi raglen addysg bersonol a chymdeithasol gyfoethog sy'n sicrhau bod disgyblion yn dysgu am ymagweddau pwysig fel cadw'n ddiogel ar y we a sut i herio rhagfarn. Manteisir yn fedrus mewn cyfleoedd cyd-addoli i drafod a myfyrio ar wersi moesol, er enghraifft gan ddefnyddio arwyddair tîm pêl-droed Cymru i feithrin gwerthoedd fel cyd-chwarae, cydweithio a helpu eraill.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn feistrolgar iawn. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r Senedd yng Nghaerdydd i ddysgu am y broses ddemocrataidd yng Nghymru. Yn ogystal, gwnânt ddefnydd cyfoethog iawn o'r ardal leol fel ymchwilio i i fywyd athletwr Olympaidd o'r pentref a fu'n sefydlu marathon Llundain a chyflwyno cyfeiriannu ym Mhrydain. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn arbennig o dda. Maent yn astudio gwaith arlunwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn gyson. Maent yn defnyddio'u medrau arsylwi o arddulliau'r gwahanol arlunwyr yn hyfedr i gynhyrchu eu gwaith creadigol eu hunain i safon aruchel. O ganlyniad, maent wedi profi llwyddiant mewn cystadlaethau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn codi eu hyder mewn perthynas â'u gallu eu hunain ynghyd â'u gwerthfawrogiad o ymdrechion a thalentau pobl eraill.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth y ffederasiwn yn ardderchog ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion llawen a llwyddiannus, yn hynod effeithiol. Mae ffocws buddiol iawn ar greu hafan hapus a chynhwysol yn sail ar gyfer creu amgylchedd effeithiol iawn lle gall disgyblion ddatblygu'n llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae ethos arbennig ar draws y ffederasiwn ac mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n barhaus. Mae'r holl staff yn rhannu'r weledigaeth ar draws y ddau gampws yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau a deilliannau'r disgyblion.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel i'w hun ac i'r staff ac mae'n gwirio bod y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn cael eu cynnal trwy drafodaethau buddiol iawn mewn cyfarfodydd staff ar y cyd. Cofnodir y cyfarfodydd hyn yn gryno, gan nodi penderfyniadau a sylwadau pwrpasol, unrhyw ddogfennaeth neu wefannau perthnasol a gyfeiriwyd atynt, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach sydd ei angen. Mae'r broses hon yn sicrhau bod dilyniant clir o un cyfarfod i'r nesaf a bod yr holl athrawon yn cael cyfle i gyd-adolygu cynnydd yn fanwl yn erbyn unrhyw gamau gweithredu. O ganlyniad, mae atebolrwydd yn eglur iawn ac mae ymrwymiad yr holl athrawon i ddatblygu strategaeth gytûn yn gadarn iawn. Trwy hyn mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddwy ysgol yn dysgu oddi wrth ei gilydd trwy rannu arfer dda a chydweithio'n bwrpasol ar feysydd penodol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae athrawes fu'n gweithio yn y cyfnod sylfaen yn cael ei mentora'n llwyddiannus wrth iddi ymsefydlu mewn dosbarth sy'n cynnwys yr holl ystod o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae arweinwyr yn ymateb yn llwyddiannus iawn i flaenoriaethau cenedlaethol. Enghraifft arbennig o hyn yw sut mae ethos y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus iawn yn y ddwy ysgol ac yn arbennig yn Ysgol Dyffryn Dulas. Defnyddir yr arbenigedd a geir yno yn hynod effeithiol i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth yn Ysgol Pennal. Mae'r pennaeth wedi sicrhau bod y staff wedi cychwyn paratoi yn fwriadus ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru maes o law. O ganlyniad, mae parodrwydd disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddatblygu eu medrau creadigol yn gryfder eithriadol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at lwyddiant athrawon i ennyn brwdfrydedd a dychymyg disgyblion yn y ddwy ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod, cefnogi a herio'r ysgolion yn effeithiol. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol o ran monitro, olrhain a hyrwyddo ethos a gwerthoedd ysgolion y ffederasiwn. Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd i graffu ar lyfrau, arsylwi gwersi ac i drafod eu gwaith gyda'r disgyblion. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth uniongyrchol werthfawr

iddynt sy'n eu galluogi i ofyn cwestiynau perthnasol i werthuso effaith unrhyw newidiadau.  Mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n fuddiol.  Mae hyn yn amlwg iawn wrth iddynt herio safon llawysgrifen a chyflwyniad y disgyblion ac wrth fonitro bod disgyblion yn deall ac yn ymateb i sylwadau athrawon ar sut i wella eu gwaith.  Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi staff yn effeithiol iawn gan ddangos gofal bugeiliol arbennig trostynt, pan fo angen.  Mae’r corff llywodraethol yn hybu’r egwyddor o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda drwy sicrhau bod dŵr ar gael i ddisgyblion yn ystod y dydd a bod cyfleoedd buddiol iddynt arddio a thyfu llysiau.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o weithdrefnau hunanwerthuso yn hynod bwrpasol er mwyn nodi cryfderau'r ysgolion a'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.  Mae blaenoriaethau datblygu’r ffederasiwn yn adlewyrchu'r deilliannau a nodwyd yn glir iawn.  Mae gan y ddwy ysgol hanes cryf iawn o wneud gwelliannau ac mae arweinwyr wedi ymateb yn bwrpasol iawn i argymhellion yr arolygiadau blaenorol.  O ganlyniad, mae’r ddwy ysgol mewn sefyllfa gadarn erbyn hyn ac mae Ysgol Dyffryn Dulas, yn benodol, wedi dangos gwelliant eithriadol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant cyfoethog o fynd i’r afael ag anghenion dysgu proffesiynol staff, drwy gynnig cyfleodd buddiol iddynt gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau proffesiynol mewn meysydd penodol.  Maent yn gwneud hyn drwy roi cyfle i athrawon ymchwilio i arfer orau yn ogystal â gweithredu newid yn y ddarpariaeth.  Mae sesiynau hyfforddiant yn effeithiol, ac yn cysylltu’n uniongyrchol â blaenoriaethau cynllun gwella’r ffederasiwn.  Mae staff yn rhannu eu medrau newydd ymysg ei gilydd yn dilyn cyrsiau yn hynod effeithiol.  Enghraifft benodol o hyn yw’r ffordd y maent wedi datblygu hyder y staff mewn medrau digidol creadigol, sydd, maes o law, wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau disgyblion.  Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu’n gadarn iawn, ac maent yn weithredol ac yn hynod effeithiol.  O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod cymaint o gysondeb â phosibl yn y ddarpariaeth ar draws y ffederasiwn.

Mae arweinwyr wedi sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno’r cwricwlwm yn ddiddorol ac maent yn defnyddio’r adnoddau’n effeithlon.  Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau gwella’r ysgol ac maent yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau.  Enghraifft benodol o hyn yw sut maent yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i liniaru effaith tlodi ar ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/01/2020